

CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS

CLERC : John MacLennan, 19, Lôn Garnedd, Abergele. LL22 7EW Ffôn : 01745 826901 Sŵm : 07903328655
e-bost : johnmaclellan9@icloud.com

-

MUNUDAU'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AM 7.30y.h. DDYDD LLUN, MEHEFIN 4ydd, 2018. YN Y GANOLFAN GYMUNEDOL, LLANELIAN YN RHOS.

1. CROESO - Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. YN BRESENNOL - Y Cadeirydd, y Cynghorydd Hefin Williams a'r Cyngorwyr D.Gwyn Jones; Tudur W.Jones; Gwyndaf O.Roberts; John D.Roberts; Goronwy R.Williams a'r Cynghorydd Sir, Ifor G.Lloyd

3. YMDDIHEURIADAU - Yr Is-Gadeirydd, y Cynghorydd Irwedd Griffiths a'r Cyngorwyr Eifion Evans; Bryn Jones a Fiona Haf Jones.

4. ARWYDDO COFRESTR - Arwyddodd pob aelod y gofrestr.

5. DATGANIADAU O DDIDDORDEB - Atgoffir aelodau ei bod yn rhaid iddyn nhw ddatgelu bodolaeth a natur unrhyw ddi-ddordebau personol gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir ar gyfer hynny. NI DDATGELWYD YR UN.

6. MUNUDAU - PENDEDRFYNWYD cadarnhau, cymeradwyo ac arwyddo munudau cyfarfod diwethaf y Cyngor a gynhaliwyd ar Fai 9fed, 2018, yn Neuadd y Pentref, Betws yn Rhos.

7. MATERION YN CODI -
 - 1.18/14(i) Prynu diffibriliwr ym Metws yn Rhos. PENDERFYNWYD GOHIRIO'R mater hwn. NODWYD gyda diolch y cyfraniadau gan Sefydliad y Merched, Betws, o £100, ac o £100 y Clwb Bowlio.

 - 1.18/14(v) Tyllau ffordd rhwng croesffyrdd Garnedd a Nentydd. Mae GF32176 yn cyfeirio. Roedd y mater hwn yn dal heb ei ddatrys. Roedd yr aelodau'n anhapus iawn gyda chyflwr y ffyrdd yn yr ardal. Dywedodd y Cynghorydd Lloyd ei fod mewn cysylltiad cyson gyda'r Cyngor Sir, sy'n honni bod y ffyrdd ar rota, ac y byddent yn cael eu trwsio ar sail hynny, yn dibynnu ar y cyllid fydd ar gael i'r adran.

 - 2.18/14(i) Difrod i ddrws y bwth teleffon. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n ceisio sicrhau pris am ddrws newydd.

5.18/6(i) Draen ffordd rhwng Cilgwyn a Fawnog. Mae'r mater hwn yn dal heb ei ddatrys. Ei rif cofnod yw GF33158

8. GOHEBIAETH GYFFREDINOL -- Dim.

9. CYLLID - PENDERFYNWYD nodi ac arwyddo adroddiadau'r Banc ar gyfer y cyfnod yn gorffen ar Fai 20fed, 2018.

Cyfrif cymunedol£9329.07

Cyfrif busnes£5529.32

3.18/8(i) Mantolen fisol ar gyfer 20.4.18 - 20.5.18 - CYTUNWYD arni gan bawb, ac fe arwyddwyd hi gan y Cadeirydd.

10. TALIADAU A DDERBYNIWYD - PENDERFYNWYD NODI GYDA DIOLCH y cyfraniadau a restrir isod, a hefyd yr ad-daliad TAW.

6.18/9(i) Cyfraniad gan Gor Meibion Betws ar gyfer diffibriliwr £1,150.00

6.18.9(ii) Cyfraniad gan Gymdeithas Cadwraeth Betws.....£20.00

6.18.9(iii) Ad-daliads TAW£133.31

11. TALIADAU ALLAN - PENDERFYNWYD TALU pob eitem a restrir isod:-

i. 6.18.10(i) Cyflog y Clerc (DD) £287.23

ii. 6.18.10(ii) HMRC(DD) £71.81

12. TALIADAU GRANT - Fe gymeradwywyd y grantiau canlynol, a gwnaed y sicciau:-

Mynwent Trofarth£400 - Siec 101117

Eisteddfod Calan Mai.....£300 - 101118

Henoed Llanelian£300 - 101119

Mynwent Betws£500 - 200002

Henoed Betws£300 - 200003

Cylch Meithrin.....£300 - 200004

Adfywiad Llanelian£300 - 200005

13. MATERION CYNGOR SIR CONWY A'R CYNGHORYDD IFOR LLOYD

4.16/12(i) Adroddiadau ynglŷn â materion Archwiliad Ward. Roedd y Cynghorydd Lloyd yn ymwybodol o ddieter aelodau ynglŷn â chyflwr y ffyrdd yn yr ardal, a dywedodd y byddai'n dal i ofyn i'r Cyngor Sir i brysuro'r mater gyn gynted â phosibl. Adroddodd ar y gwyn ynglŷn â'r babell fawr a oedd ym Minafon, ac y caent ei drfnfyddio ar gyfer materion busnes, ond gydag amodau. Roedd y Cynghorydd Lloyd wedi bod mewn trafodaethau i gael grant o £300,000 i gael band-eang i'r ardaloedd gwledig. Roedd hyn yn dal ar fynd.

6.18/12(i) Cytundeb ar gyflwyno CDLL(LDP).. Roedd hyn yn dal ar fynd.

14. MATERION CYNULLIAD CYMRU - Dim.

15. MATERION CYFFREDINOL O FEWN Y GYMUNED

6.18/15(i) Blodau yn y gymuned. NODWYD gyda siom nad oedd y Cyngor Sir bellach yn darparu blodau ar gyfer y gymuned, felly PENDERFYNWYD y byddai'r Cyngor yn darparu £75 i bob pentref i brynu planhigion. Fe fydd y Cynghorydd D. Gwyn Jones yn dilyn hyn ymhellach.

6.18/15(ii) Dywedwyd bod 3 damwain wedi digwydd ger Bryn Person. Gofynnodd aelodau am gael gosod arwyddion ychwanegol yn y safle i rybuddio gyrwyr.

16. UNRHYW FATER ARALL

6.18/15(i) Cadarnhau talu cyflog y Clerc yn syth i'r Banc. CYTUNWYD ar hynny.

6.18/15(ii) Bwth teleffon Dolwen - Roedd cysylltu wedi bod gyda BT i brynu'r bwth, ac roedd disgwyl am ateb.

6.18/15(iii) Roedd aelodau'n drist i glywed bod cyn gynghorydd wedi marw ac roeddent yn dymuno anfon eu cydymdeimlad at deulu Mr. Richard Owen o Gefn Castell.

17. CYNLLUNIO -

6.18/16(i) 0/45146 Codi sied amaethyddol i gadw offer amaethyddol (Cymeradwyaeth adeilad amaethyddol blaenorol) yn Llannerch, Ffordd Plas Helyg, Llysfaeen - Mr Bobby Ryan. DIM GWRTHWYNEBIAD.

6.18/16(ii) 0/45158 Cymeradwyo materion neilltuedig yng nghyswllt caniatâd cynllunio amlinellol 0/42345 (Datblygiad o dir gyferbyn â Bryn Rodyn, Ffordd Dolwen, Hen

Golwyn, ar gyfer preswylfeydd. (Caniatâd cynllunio amlinellol, Cam 2), Mr. Stuart Andrew. DIM GWRTHWYNEBIAD gan fod eisoes ganiatâd cynllunio amlinellol.

6.18/16(iii) 0/45161 Cymeradwyo materion neilltuedig yng nghyswllt caniatâd cynllunio amlinellol (Datblygiad o dir gyferbyn â Bryn Rodyn, Ffordd Dolwen, Hen Golweyn, ar gyfer preswylfeydd. (Caniatâd cynllunio amlinellol, Cam 1). Mr. Stuart Andrew. DIM GWRTHWYNEBIAD gan fod eisoes ganiatâd cynllunio amlinellol.

6.18/16(iv) 0/45173 Adnewyddu giât arfaethedig. (Cais adolygol) yn Fferm Plas, Betws yn Rhos. Mr. John Jones. DIM GWRTHWYNEBIAD.

6.18/16(v) 0/45206 Chwalu tŷ presennol a rhan o dŷ allan, a chodi tŷ newydd a safle waith gysylltiedig yng Ngloddaeth, Ffordd Galch, Llanelian yn Rhos. Mr. a Mrs Lloyd. Gofynnodd yr aelodau am i olwg allanol y cais fod yn gydnaws â'i amgylchfyd , ac oherwydd ei safle na fyddai lled ei fynediad yn ddigon i achosi damweiniau.

18. MATERION ARCHWILIAD -

NODI bod pob llyfr cyllid ac adroddiadau'r Cyngor wedi eu hanfon i JDH Services ar gyfer Archwiliad Mewnol. Mae pob hysbysiad Archwiliad wedi eu harddangos yn y gymuned leol. NODWYD HYNFY.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall fe orffennodd y cyfarfod am 9.10y.h.

CADEIRYDD.....DYDDIAD.....